# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*
# *Harbour Consultative Committee*

## *06 Hydref/October 2009*

***Adroddiad yr Uned Forwrol – Maritime Unit Report***

### *1 - __Morwriaeth / Navigation__*

***1.1*** Yn unol â gofynion statudol, fe archwiliwyd holl Gymhorthion Mordwyo harbwr Abermaw gan swyddog Tŷ'r Drindod ar y 10fed Awst 2009. Adroddwyd gan yr archwiliwr bod yr holl gymhorthion mordwyo, oni bai am gymhorthydd y 'Clwyd', mewn cyflwr derbyniol, ac na fod yna unrhyw ddiffygion yn y cymhorthion eraill eleni.

***1.2*** Er gwaetha'r tywydd, mae holl gymhorthion mordwyo wedi bod yn gyson ar eu safle dros dymor yr haf. Fe gwblhawyd gwaith cynnal a chadw sylweddol ar gymhorthydd y 'Fairway' a chymhorthion eraill ar ddechrau tymor haf. Yn 2010, fe fydd yn angenrheidiol bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r flwyddyn ac nid ar ddechrau'r haf.

***1.3*** Er ein hymdrechion i'w gynnal a chadw a cheisio arbed costau sylweddol, mae cyflwr cymhorthydd y 'Clwyd' wedi gwaethygu dros fisoedd yr haf ac mae nawr yn anorfod bod yr Uned Forwrol yn adnewyddu'r cymhorthydd yn y dyfodol agos. Oherwydd lleoliad cymhorthydd y 'Clwyd', fe fydd angen cynlluniau manwl ar gyfer y cymhorthydd. Mae cyllid diymhongar wedi ei adnabod ar gyfer y gost a hyn oddi fewn cyllideb gyfredol yr Uned Forwrol.

***1.4*** Bwriedir cychwyn rhaglen waith cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref, ac fe fydd y llusernau a'r bwiau yn cael eu cynnal unwaith yn rhagor. Mae amcan gost y gwaith yn £1,900 ac fe fydd angen cymorth contractwr er cwblhau rhai elfennau o'r gwaith.

***1.5*** Mae angorion cychod ar gyfer ymwelwyr ac angorion eraill sydd ym mherchenogaeth y Cyngor wedi eu harchwilio a'u cynnal a chadw. Cafodd bwiau parth cyflymdra eu gosod ar traeth Abermaw a thraeth Y Friog ac fe gwblhawyd y gwaith gan staff yr harbwr. Gan fu i'r bwiau parth cyflymdra gael eu gosod gan y Cyngor, nid oedd yna gost ychwanegol angen ei adnabod er talu am wasanaeth contractwr eleni. Llynedd, roedd cyfanswm cost gosod ac adfer y bwiau parth cyflymdra yn **£800**.

Cwblhawyd y gwaith ail osod y cymhorthion a chynnal a chadw angorfeydd drwy gytundeb gyda chontractwr lleol ac fe roedd y gost fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Ail osod y bwi 'Fairway | £825.00 |
| Cynnal bwi'r Traethell | £450.00 |
| Cynnal bwi'r 'Bar' | £450.00 |
| Cynnal bwi Port | £450.00 |
| Llusern bwi Port | £285.00 |
| Dychwelyd 20 angorfeydd i'r lan | £800.00 |
| Ail osod 17 angorfa yn yr harbwr | £680.00 |
| Archwilio 6 angorfa dwr dwfn | £600.00 |
| Cadwyni angorfeydd a chymhorthion mordwyo | £877.00 |
| **Cyfanswm** | **£5,417.00** |

Fel y nodir uchod, mae costau cynnal a chadw cymhorthion mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn gymharol uchel, ac mae angen adnabod yr holl gostau oddi fewn y gyllideb gyfredol.

***3 – Gwasanaeth Ysgraff***

***3.1*** Yn ystod 2009, fe fu i'r Uned Forwrol rhyddhau tri 'Trwydded Perchennog', ac wyth 'Trwydded Cychwyr' ar gyfer gwasanaeth ysgraff rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn. Rhyddhawyd un 'Trwydded Perchennog' yn ar gyfer ysgraff harbwr Aberdyfi. Golygai hyn bod niferoedd ysgraff a fu yn drwyddedig ar gyfer cludo teithwyr un yn fwy eleni drwy gymharu â'r nifer o gychod a fu wedi eu trwyddedi lynedd.

***3.2*** Mae angen sicrhau bod sail rhyddhau 'Trwydded Perchennog' yn glir, ac na fod yna unrhyw amheuaeth o'r nifer a ganiateir gan y syrfëwr i deithio ar fwrdd y cwch. Mae angen hefyd sicrhau bod yna gysondeb yn yr offer diogelwch sydd ei angen ar fwrdd yr ysgraff, a bod yr offer diogelwch wedi cael ei archwilio gan y syrfëwr morol ac ar gael ar fwrdd yr ysgraff ar unrhyw adeg.

***3.3*** Mae angen bod yn hollol glir ar ddiffiniad 'Tywydd Ffafriol' ac fe fydd unrhyw drwydded a fydd yn cael ei ryddhau yn seiliedig ar y paragraff canlynol sydd wedi ei gynnwys oddi fewn Cod Ymarfer yr MCA ar gyfer cychod masnachol:-

***'Favourable Weather' means wind, sea and visibility conditions which are deemed by the skipper to be safe for a small vessel to operate within the limits applied to it; or, in any other case means conditions throughout a voyage or excursion in which the effects either individually or in combination of swell, height of waves, strength of wind and visibility cause no hasard to the safety of the vessel, including handling ability.***

***In making a judgement on favourable weather, the skipper should have due regard to official weather forecasts for the service area of the vessel or to weather information for the area which may be available from the MCA or other coastal safety organisations or Harbour Authority.***

***3.4*** Mae'r amser ble gellir cynnal gwasanaeth ysgraff wedi ei gyfyngu at oriau golau dydd yn unig. Hynny yw, un awr cyn codiad haul hyd at un awr ar ôl machlud haul. Ni chaniateir rhedeg ysraff tu allan i'r oriau hyn.

***3.5*** Mae copi o'r 'Drwydded Perchennog' a rhestr 'Offer Diogelwch' cyfredol wedi ei gynnwys yn yr atodiad a gofynnir barn yr Aelodau ar geiriad y drwydded ac offer sydd angen ei gludo ar fwrdd yr ysgraff.

## ***4 – <u>Digwyddiadau / Events</u>***

***4.1*** Ar y 20fed o Fehefin, cynhaliwyd cystadleuaeth Ras y Tri Phigyn. Roedd yna dri deg a phedwar o gychod yn cystadlu yn y ras eleni ac mae hyn yn dangos bod poblogrwydd y ras yn cynyddu. Ar ddechrau'r tymor fe fuddsoddwyd £2,750 mewn offer angori a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer cychod Ras y Tri Phigyn. Cynhelir y ras nesaf ar y 19eg Fehefin 2010, ac yr ydym yn edrych ymlaen at gydweithio yn agos gyda Phwyllgor y Ras unwaith eto.

***4.2*** Yn 2010, fe fydd angen sicrhau bod holl waith rhagbaratoi angorfeydd wedi ei gwblhau a bod yr holl angorfeydd yn barod o leiaf saith diwrnod cyn bod cychod a fu yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn cyrraedd Abermaw. Eleni, achoswyd anghyfleuster i rai cystadleuwyr gan na fod angorion digonol ar gael.

***4.3*** Yn anffodus, oherwydd na fod ansad dwr ymdrochi traeth Abermaw wedi cyrraedd y gofynion angenrheidiol yn ystod 2008, nid oedd yn bosibl cyflwyno cais am y Faner Las Rhyngwladol ar gyfer tymor ymdrochi 2009. Mae canlyniadau ansawdd dwr ymdrochi traeth Abermaw yn edrych yn addawol hyd yma, ond rhaid disgwyl hyd fod yr holl ganlyniadau wedi eu cyhoeddi cyn gelli'r dadansoddi ansawdd dwr ymdrochi 2009. Pe bydd yr ansawdd dwr ymdrochi yn cyrraedd y gofynion, yna fe fydd yr Uned Forworl yn cyflwyno cais am y Faner Las Rhyngwladol unwaith eto yn 2010.

## ***5 – <u>Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics</u>***

***5.1*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad bod yna **892** o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2009. Mae hyn yn cymharu â **871** a fu wedi cofrestru yn 2008, sef **21** yn fwy eleni. Cofrestrwyd ***1169*** cwch pŵer, gyda rhan helaeth, sef ***714***, yn cofrestru drwy'r swyddfa Forwrol ym Mhwllheli. Fe nodi'r bod nifer o Fadau Dwr Personol a Chychod Pŵer a fu wedi cofrestru yn swyddfa Harbwr Abermaw yn uwch eleni mewn cymhariaeth a'r nifer a fu wedi cofrestru yn **2008**. Mae nifer fawr o gwsmeriaid yn cofrestru drwy'r post a diau fod y sefyllfa economaidd a phris tanwydd yn cael effaith sylweddol ar ddefnydd cychod pŵer a Badau Dwr Personol ar yr arfordir.

***5.2*** Fel a nodi'r yn y tabl, cofrestrwyd **105** o gychod pŵer yn harbwr Abermaw, ac fe gofrestrwyd ***48*** cwch pŵer yn harbwr Aberdyfi eleni. Mae ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn parhau fel y llynedd sef ***£15.00*** drwy'r post, neu ***£20.00*** ar y

traeth, neu yn swyddfa’r harbwr. Mae ffi lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor.

***5.3*** Nodi’r o’r tabl yn yr atodiad, dim ond ***100*** o gychod oedd wedi angori yn yr harbwr eleni, sef tri chwch ar ddeg yn llai na’r nifer a fu wedi angori yn **2007**. Mae hyn yn achosi pryder.

## *6* ***Cyllidebau / Budgets***

***6.1*** Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllideb derfynol harbwr Abermaw ***am y flwyddyn ariannol 2008/09***. Atodir hefyd cyllid gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn ariannol **2009/10**.

***6.2*** Bydd angen bod yn wyliadwrus er sicrhau na fod yr Uned Forwrol yn ymrwymo arian tu hwnt i’r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac fel y sylwir, fe fydd angen cwtogi ar wariant yn harbwr Abermaw dros fisoedd y gaeaf.

Mae gofyn bod yr Harbwr Feistr yn paratoi rhaglen waith manwl ar gyfer tymor yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant a blaenoriaethau adnoddau staff gan sicrhau bod holl waith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau ymhell cyn dechrau’r tymor yn **2010**. Fe fydd yr Harbwr feistr yn dosbarthu’r rhaglen waith yn y cyfarfod.

***6.3*** Mae targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol yn ***£53,230.*** Hyd at ddiwedd Awst, mae cyfanswm incwm harbwr Abermaw wedi cyrraedd ***£33,187*** sef ***£20,043*** yn fyr o’r targed. Ni ragwelir bydd yna ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth ***2010.***